**CYNNWYS**

**Cymal**


| | | |
|---|---|---|
| 1 | DIFFINIADAU A DEHONGLIADAU | 2 |
| 2 | CYCHWYN, OES A THERFYNU | 5 |
| 3 | EGWYDDORION AC AMCANION ALLWEDDOL | 6 |
| 4 | Y CORFF ATEBOL | 7 |
| 5 | DYLETSWYDDAU’R CORFF ATEBOL | 8 |
| 6 | DYLETSWYDDAU'R PARTÏON ERAILL | 9 |
| 7 | CYNLLUN BUSNES | 9 |
| 8 | GWNEUD PENDERFYNIADAU | 10 |
| 9 | CYD-BWYLLGOR | 10 |
| 10 | CRAFFU | 14 |
| 11 | TÎM GWEITHREDOL | 14 |
| 12 | YMRWYMIAD Y PARTÏON A CHYFRANIADAU | 15 |
| 13 | LLINIARU | 19 |
| 14 | CYFRIFOLDEBAU'R PARTÏON | 19 |
| 15 | TYNNU'N ÔL | 20 |
| 16 | CANLYNIADAU TERFYNU | 20 |
| 17 | EIDDO DEALLUSOL | 20 |
| 18 | CYFRINACHEDD A CHYHOEDDIADAU | 21 |
| 19 | CONTRACTAU (HAWLIAU TRYDYDD PARTI) | 21 |
| 20 | DATRYS ANGHYDFOD | 21 |
| 21 | DIOGELU DATA | 22 |
| 22 | RHYDDID GWYBODAETH A GWYBODAETH AMGYLCHEDDOL | 24 |
| 23 | HYSBYSIADAU | 25 |
| 24 | CYFRAITH LYWODRAETHOL | 25 |
| 25 | ASEINIO | 25 |
| 26 | ILDIO HAWL | 25 |
| 27 | Y CYTUNDEB CYFAN | 26 |
| 28 | GWRTHRANNAU | 26 |

| | | |
|---|---|---|
| 29 | PERTHYNAS Y PARTÏON | 26 |
| 30 | CYFRIFOLDEBAU STATUDOL | 26 |
| ATODLEN 1 - POLISI DIRPRWYO | | 31 |
| ATODLEN 2 - CYLCH GORCHWYL | | 33 |
| | RHAN 1 - CYLCH GORCHWYL Y CYD-BWYLLGOR | 33 |
| | RHAN 2 - CYLCH GORCHWYL Y TÎM GWEITHREDOL | 35 |
| | RHAN 3 – CYLCH GORCHWYL YR IS-BWYLLGORAU | 36 |
| ATODLEN 3 - MANYLION Y PARTÏON | | 37 |
| ATODLEN 4 - PENAWDAU GWARIANT | | 38 |
| ATODLEN 5 - CYFNODAU CYFRIFYDDU | | 39 |
| ATODLEN 6 - COD YMDDYGIAD AR GYFER YMGYNGHORWYR Y BWRDD UCHELGAIS | | 40 |
| ATODLEN 7 - MANYLION Y CYNRYCHIOLWYR | | 43 |
| ATODLEN 8 - FFRAMWAITH SICRWYDD | | 44 |
| ATODLEN 9 - CYNLLUN GWEITHREDU | | 45 |

Gwneir y **CYTUNDEB HWN** ar 2018

**RHWNG**

(1) **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY** o [xxx] ("**Cyngor Conwy**");

(2) **CYNGOR SIR DDINBYCH** o [xxx] ("**Cyngor Sir Ddinbych**");

(3) **CYNGOR SIR Y FFLINT** o [xxx] ("**Cyngor Sir y Fflint**");

(4) **CYNGOR GWYNEDD** o [xxx] ("**Cyngor Gwynedd**");

(5) **CYNGOR SIR YNYS MÔN** o [xxx] ("**Cyngor Sir Ynys Môn**");

(6) **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM** o [xxx] ("**Cyngor Wrecsam**"),

(y cyfeirir atynt ar y cyd fel "**y Cynghorau**" ac yn unigol fel "**Cyngor** "); a

(7) **PRIFYSGOL BANGOR** o [xxx];

(8) **PRIFYSGOL GLYNDŴR WRECSAM** o [xxx];

(9) **COLEG CAMBRIA** o [xxx];

(10) **GRŴP LLANDRILLO MENAI** o [xxx];

(y cyfeirir atynt ar y cyd fel "**Ymgynghorwyr**" ac yn unigol fel "**Ymgynghorydd**").

**CRONICLIADAU CEFNDIROL**

(A) Mae'r Partïon wedi cytuno i gydweithio ac ymrwymo i'r Cytundeb hwn i ffurfioli eu rolau a'u cyfrifoldebau unigol er mwyn cyflawni eu rhwymedigaethau yng nghyswllt Cynllun Twf Gogledd Cymru hyd at y pwynt pan gaiff y Cynllun Twf ei lofnodi gan y Partïon, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

(B) Mae'r Partïon wedi cytuno i greu Cyd-bwyllgor gyda threfniant llywodraethu cadarn a fydd, yn y pendraw, yn gyfrifol am oruchwylio a chydlynu cyflawni rhwymedigaethau'r Partïon yng nghyswllt y Cynllun Twf. Mae manylion pellach ynghylch y Cyd-bwyllgor wedi'u nodi yng Nghymal 9 (Cyd-bwyllgor) ac mae ei swyddogaethau wedi'u nodi yn Atodlen 2 (Cylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor).

(C) Bydd rhwymedigaethau manylach yng nghyswllt y Cynllun Twf wedi'u hymgorffori mewn ail gytundeb llywodraethu, (y "**GA2**") a gaiff ei ddatblygu gan y Partïon ac yr ymrwymir iddo wedi i'r Cynllun Twf gael ei gadarnhau. Caiff swyddogaethau'r Cyd-bwyllgor eu diweddaru ymhellach yn GA2.

(D) Mae'r Partïon wedi cytuno i benodi Cyngor Gwynedd i weithredu fel Corff Atebol ar gyfer ac ar ran y Partïon a chyflawni rhwymedigaethau'r Partïon yng nghyswllt y Cynllun Twf ac yn unol â'r Cytundeb hwn.

(E) Dymuna'r Cynghorau ymrwymo i'r Cytundeb hwn a chyflawni'r Cynllun Twf yn unol â'r pwerau sydd wedi'u rhoi iddynt dan Adrannau 101, 102, 111 ac 113 Deddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 1 Deddf Awdurdod Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1970, Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, Adran 2, 19 a 20 Deddf Llywodraeth Leol 2000, Adran 9 Mesur Llywodraeth Leol Cymru a'r holl bwerau galluogi sydd bellach wedi'u breinio i'r Cynghorau.

1. **DIFFINIADAU A DEHONGLI**

1.1 Yn y Cytundeb hwn a'r cronicliadau, oni bai fod y cyd-destun yn gofyn yn wahanol, bydd y termau isod yn golygu'r hyn a nodir isod:-

| | |
|---|---|
| "**Corff Atebol**" | sef y Cyngor a benodwyd dan Gymal 4 (*Corff Atebol*) a fydd yn gyfrifol am dderbyn a gwario arian ar gyfer ac ar ran y Partïon yng nghyswllt y Cynllun Twf ac y mae eu dyletswyddau wedi'u nodi dan Gymal 5 (*Dyletswyddau'r Corff Atebol*) |
| "**Cyfnod Cyfrifyddu**" | sef y cyfnodau hynny sydd wedi'u nodi yn Atodlen 6 (*Cyfnodau Cyfrifyddu*) fel y caiff ei diwygio o bryd i'w gilydd yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn |
| **"yr Ymgynghorwyr"** | sef y cyrff a'r unigolion sydd wedi'u rhestru isod ynghyd ag unrhyw unigolion a/neu gyrff pellach y mae'r Cyd-bwyllgor yn dewis eu gwahodd yn y rhinwedd hwnnw o bryd i'w gilydd :<br>• Prifysgol Bangor<br>• Coleg Cambria<br>• Grŵp Llandrillo Menai<br>• Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy |
| "**Cyllideb Flynyddol**" | sef cyllideb flynyddol gymeradwy'r Corff Atebol a gedwir ar gyfer ac ar ran y Partïon ac fel sydd wedi'i nodi yng Nghymal 12.4 (*Cyllideb Flynyddol*) sy'n cynnwys talu unrhyw Gostau'r Cyd-bwyllgor yn unol â'r Cytundeb hwn |
| "**Fframwaith Sicrwydd**" | sef systemau, prosesau a phrotocolau'r Partïon i asesu prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Partïon er mwyn cyflawni eu rhwymedigaethau yng nghyswllt y Cynllun Twf a atodir yn Atodlen 8 (*Fframwaith Sicrwydd*) y Cytundeb hwn |
| "**Diwrnod Busnes**" | sef unrhyw ddiwrnod heblaw dydd Sadwrn neu ddydd Sul neu ŵyl y banc neu wyliau cyhoeddus yng Nghymru a/neu Lloegr |
| "**Rhanbarth Gogledd Cymru**" | sy'n cynnwys chwe ardal weinyddol Cyngor Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Wrecsam |
| "**CEDR**" | sef y Ganolfan Datrys Anghydfod |
| "**Cynllun Twf**" | sef y cytundeb sydd i'w lofnodi gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r [Partïon] sy'n nodi telerau Cynllun Twf Gogledd Cymru |
| "**Dyddiad Cychwyn**" | sef dyddiad y Cytundeb hwn |

gilydd.

## 10. CRAFFU

10.1 Bydd penderfyniadau'r Cyd-bwyllgor yn amodol ar graffu a galw i mewn gan unrhyw un o'r Cynghorau.

10.2 O bryd i'w gilydd, gall y Cynghorau alw grŵp ("y Grŵp Cydlynu Craffu") sy'n cynnwys cadeiryddion y pwyllgorau trosolwg a chraffu perthnasol sydd â chyfrifoldeb dros y Cynllun Twf er mwyn:

10.2.1 Cydlynu unrhyw waith craffu sydd wedi'i gynllunio o'r gwaith sydd wedi'i wneud neu sydd i'w wneud gan y Cyd-bwyllgor, a/neu unrhyw benderfyniadau sydd wedi'u gwneud neu i'w gwneud gan y Cyd-bwyllgor

10.2.2 Cydlynu unrhyw drefniadau i alw penderfyniad a wnaed gan y Cyd-bwyllgor i mewn

10.2.3 Cytuno ar drefniadau i wahodd cynghorau o unrhyw rai o'r Cynghorau neu'r cyfan i fynychu cyfarfod o bwyllgor trosolwg a chraffu'r Cyngor er mwyn craffu gwaith a phenderfyniadau'r Cyd-bwyllgor

## 11. TÎM GWEITHREDOL A GRŴP RHEOLI PROSIECT

### 11.1 Cyfansoddiad ac Awdurdod y Tîm Gweithredol a'r Grŵp Rheoli Prosiect

11.1.1 Bydd y Partïon yn ffurfio'r Tîm Gweithredol er dibenion gweithredu'r Cynllun Twf a rheoli rhwymedigaethau'r Partïon o ddydd i ddydd yng nghyswllt y Cynllun Twf ac ymgymryd â'r swyddogaethau sydd wedi'u nodi yn Atodlen 2, (*Cylch Gorchwyl y Tîm Gweithredol*).

11.1.2 Ni fydd gan y Tîm Gweithredol unrhyw bwerau i wneud penderfyniadau yn unol â'r Cytundeb hwn.

11.1.3 Bydd pob Parti yn penodi un cynrychiolydd o blith uwch swyddogion i'r Tîm Gweithredol ac unrhyw gynrychiolwyr eraill y gall y Cyd-bwyllgor eu pennu o bryd i'w gilydd. Bydd y cadeirydd yn gynrychiolydd fel y penna'r Cyd-bwyllgor o bryd i'w gilydd.

11.1.4 Bydd gan bob Parti hawl, o bryd i'w gilydd, i benodi dirprwy i'w uwch swyddog a bydd gan y dirprwy hwn (ym mhob achos) yr hawl i fynychu cyfarfodydd y Tîm Gweithredol yn lle'r uwch swyddog.

11.1.5 Ar eu disgresiwn, bydd y Partïon yn disodli eu cynrychiolwyr (a'u dirprwyon perthnasol) a benodir i'r Tîm Gweithredol ar yr amod bod hyn ar yr un sail â'r sawl a benodwyd yn wreiddiol ac ar yr amod na chaiff yr un uwch swyddog o'r Tîm Gweithredol ei symud na'i ddisodli gan unrhyw Barti heb i'r Parti hwnnw roi rhybudd ysgrifenedig ymlaen llaw cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol a beth bynnag o fewn deg (10) Diwrnod Busnes o'i fwriad i symud neu ddisodli'r cynrychiolydd hwnnw.

11.1.6 Bydd y Tîm Gweithredol yn cyfarfod fel sydd angen yn unol â'r amserlen ar gyfer y Cynllun Twf a, beth bynnag, ar amseroedd y mae'r Tîm Gweithredol yn penderfynu arnynt.

11.1.7 Bydd y Tîm Gweithredol yn rhoi cyfarwyddyd a chyngor i'r Grŵp Rheoli Prosiect ar weithrediad penderfyniadau'r Cyd-bwyllgor.

11.1.8 Bydd y Corff Atebol yn defnyddio swyddogion i weithredu penderfyniadau'r Cyd-bwyllgor, sef y Grŵp Rheoli Prosiect.

12.4.5 Bydd unrhyw orwariant ar y Gyllideb Flynyddol yn cael eu cyfrif amdanynt gan y Partïon ar Sail Gymesur.

12.4.6 Caiff Cyllideb Flynyddol i'r Corff Atebol yn dilyn cadarnhau'r Cynllun Twf ei chytuno fel rhan o GA2, ynghyd â'r broses o ddiweddaru cyllideb o'r fath a chanlyniadau unrhyw orwariant ar y gyllideb honno.

12.5 **Cyfraniadau**

12.5.1 **Cyfanswm cyfraniadau**

Mae'r Partïon yn cydnabod ac yn cytuno yr ariannir cyflawni rhwymedigaethau'r Partïon yng nghyswllt y Cynllun Twf fel a ganlyn yn y pendraw:

(a) swm y cytunir arno yn y Cynllun Twf gan TEM ("**Cyfraniad TEM**") a gaiff ei fanylu yn GA2;

(b) swm y cytunir arno yn y Cynllun Twf fel cyfanswm gan y Partïon ("**Cyfraniad y Partïon**") a gaiff ei fanylu yn GA2; a

(c) chyfraniad pob Parti tuag at y Gyllideb Flynyddol, ar Sail Gymesur, yn unol â Chymal 12.4 (*Cyllideb Flynyddol*).

12.5.2 **Cyfraniad TEM**

Cydnabyddir a chytunir y caiff Cyfraniad TEM ei gynnwys yn y Cynllun Twf. Byd GA2 yn nodi manylion amseriad Cyfraniad TEM, unrhyw eithriadau o Gyfraniad TEM ac unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â Chyfraniad TEM.

12.5.3 **Cyfraniad y Partïon**

(a) Yn amodol ar Gymal 12.5.3(b), bydd pob Parti yn cyfrannu at gyfanswm Cyfraniad y Partïon yn unol â'r cyfrannau isod (a bydd unrhyw gyfeiriadau yn y Cytundeb hwn at "**Sail Gymesur**" yn defnyddio'r cyfrannau hyn):

| **Partïon** | **Cyfran y Cyfraniad** |
|---|---|
| Cyngor Conwy | 1/8fed |
| Cyngor Sir Ddinbych | 1/8fed |
| Cyngor Sir y Fflint | 1/8fed |
| Cyngor Gwynedd | 1/8fed |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 1/8fed |
| Cyngor Wrecsam | 1/8fed |
| Prifysgol Bangor | 1/16eg |
| Prifysgol Wrecsam | 1/16eg |
| Coleg Cambria | 1/16eg |
| Grŵp Llandrillo Menai | 1/16eg |
| NWMD | £0 mewn arian gyda 1/8 i'w gyflawni "mewn nwyddau" yn unol â chymal 11.4.4 |
| **Cyfanswm** | **Cyfraniad Llawn** |

(b) Cydnabyddir a chytunir y caiff amlen fforddiadwyedd ar gyfer pob Parti ei chymeradwyo gan y Partïon fel rhan o GA2 ac y bydd unrhyw benderfyniad i gynyddu'r amlen fforddiadwyedd yn Fater a Gedwir i'r Partïon.

12.5.4 **Archwiliad**

Bydd pob Parti yn caniatáu i'r holl gofnodion y cyfeirir atynt yn y Cytundeb hwn gael eu harchwilio a'u copïo o bryd i'w gilydd gan y Corff Atebol, neu unrhyw gynrychiolwyr o'r Corff Atebol neu unrhyw gynrychiolwyr eraill sydd angen yn rhesymol fynediad iddynt er mwyn ymgymryd ag unrhyw archwiliad o'r arian sydd wedi'i dderbyn a'i wario yn unol â'r Cytundeb hwn.

12.5.5 **Cadw Cofnodion**

Caiff y cyfrifon y cyfeirir atynt yn y Cymal 12 hwn (Ymrwymiad y Partïon a Chyfraniadau) eu cadw am gyfnod o o leiaf deg (10) mlynedd wedi cyflawni'r Cynllun Twf yn unol â'r Cytundeb hwn.

